**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU YR AMGYLCHEDD**
**26 CHWEFROR 2019**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgor Delyn, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug CH7 6NA Dydd Mawrth, 26 Chwefror 2019

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Ray Hughes (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Mike Allport, Haydn Bateman, Sean Bibby, Chris Dolphin, Andy Dunbobbin, David Evans, Dave Hughes, Joe Johnson, Vicky Perfect, a Paul Shotton

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Derek Butler, Aelod Cabinet Datblygu Economaidd.

**DIRPRWYON:** Y Cynghorydd Kevin Hughes (yn lle Veronica Gay)

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Carolyn Thomas, Aelod Cabinet Strydwedd a Chefn Gwlad, y Cynghorydd Chris Bithell, Aelod Cabinet Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant), Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), Rheolwr Cludiant, Rheolwr Uned Cludiant Integredig – Strydwedd a Chludiant, a Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Hwylusydd Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**49. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)**

Ni dderbyniwyd dim.

**50. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr 2018 a 15 Ionawr 2019.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

**51. YMATEB CYNGOR SIR Y FFLINT I BAPUR GWYN TRAFNIDIAETH LLYWODRAETH CYMRU**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) adroddiad ar Bapur Gwyn Cludiant Llywodraeth Cymru (LlC) 'Gwella Trafnidiaeth Gyhoeddus'. Dywedodd fod LlC wedi cyflwyno Papur Gwyn i ymgynghori arno ym mis Rhagfyr 2018, ar gynlluniau i wella cludiant cyhoeddus yng Nghymru. Pwrpas yr ymgynghoriad oedd ceisio barn ar gynigion deddfwriaethol LlC ar gyfer ad-drefnu'r broses o gynllunio a darparu gwasanaethau bysiau lleol yng Nghymru, ynghyd â thrwyddedu tacsis a cherbydau preifat eraill. Y dyddiad cau i ymateb i'r ymgynghoriad oedd 27 Mawrth 2019.

Dywedodd y Prif Swyddog bod 10 cynnig o fewn y Papur Gwyn a oedd wedi’u crynhoi yn yr adroddiad. Eglurodd fod cynigion 1 i 6 yn ymwneud â chludiant cyhoeddus a gwahoddodd y Rheolwr Uned Cludiant Integredig a Rheolwr y Gwasanaethau Rheoleiddio i adrodd ar bob cynnig a'r ymatebion arfaethedig cyffredinol. Roedd cynigion 7 i 10 yn cyfeirio'n benodol at drwyddedu tacsis ac roedd ymateb y Cyngor wedi'i drafod gan y Pwyllgor Trwyddedu. Roedd yr ymateb arfaethedig i’r cwestiynau a oedd yn ymwneud â’r cynigion hyn i’w gweld yn atodiad 1 i’r adroddiad.

Mynegodd y Cynghorydd Carolyn Thomas bryderon ynghylch y diffyg eglurder o ran cynnig 1 yn yr adroddiad a'r aelodaeth o Awdurdod Cludiant ar y Cyd a threfniadau ariannu. Eglurodd ei bod wedi codi’r materion hyn gyda LlC ac roedd wedi cael gwybod y gallai papur manylach ddod yn fuan. Dywedodd hefyd nad oedd y Papur Gwyn yn crybwyll sut y byddai Trafnidiaeth Cymru’n cyd-fynd â hyn. Ychwanegodd fod yr Awdurdod ar hyn o bryd yn darparu cyllid LlC ar ran awdurdodau eraill Gogledd Cymru, e.e. tocynnau bws a’r grant cynnal gwasanaethau bysiau. Cyfeiriodd y Cynghorydd Thomas hefyd at y cynllun lliwiau newydd y byddai Sir y Fflint yn ei roi ar fysiau a chytunodd y Prif Swyddog i anfon gwybodaeth am hyn at aelodau’r Pwyllgor.

Dywedodd y Cynghorydd Joe Johnson ei fod yn gwrthwynebu’r cynnig i gynyddu'r oed i fod yn gymwys ar gyfer y cynllun tocynnau teithio rhatach gorfodol er mwyn iddo gyd-fynd ag oed pensiwn merched. Dywedodd y dylai tocynnau bysiau barhau i fod ar gael o 60 oed ymlaen a soniodd am yr angen i leihau’r ôl-troed carbon. Teimlai y gallai’r newidiadau arfaethedig gael effaith negyddol.

Pwysleisiodd y Cynghorydd Carolyn Thomas y byddai pobl dan 65 oed a oedd eisoes wedi derbyn tocyn bysiau am ddim yn parhau i fod yn gymwys i'w ddefnyddio.

Cyfeiriodd y Cynghorydd David Evans at ymatebion awgrymedig yr Awdurdod i Bapur Gwyn LlC ar gludiant, a oedd ynghlwm â'r adroddiad. Gan sôn am gwestiynau 18 a 19 a oedd ill dau wedi'u hateb ag 'Ydw/Ydym', dywedodd nad oedd hyn yn ateb y cwestiynau. Cefnogodd y Cynghorydd Evans y farn y dylai'r oedran i docynnau bws rhatach barhau'n 60. Roedd yn teimlo y gallai tocynnau teithio rhatach gynnal gwasanaethau bysiau mewn sawl achos, gan awgrymu y gallai newidiadau wneud llwybrau'n anymarferol yn y dyfodol. Cyfeiriodd hefyd at yr ôl-troed carbon a dywedodd nad oedd rhaid i bobl a oedd yn defnyddio gwasanaeth bysiau ddefnyddio eu ceir a chyfeiriodd hefyd at fanteision cymdeithasol trwy gwrdd â phobl eraill, mynd am dro a chael mynediad at weithgareddau cymdeithasol a gwasanaethau iechyd a lles. Ymbiliodd ar y Cyngor i ddiwygio’r Ymateb i’r Ymgynghoriad ynghlwm â thocynnau bysiau rhatach i barhau fel ag y maent.

Soniodd y Cynghorydd David Evans am nifer y tocynnau bysiau a oedd yn cael eu rhoi ond nad oeddent yn cael eu defnyddio ac, wrth gyfeirio at y broses ailymgeisio, dywedodd fod angen sicrhau bod pobl a oedd yn cael tocynnau bysiau newydd yn eu defnyddio.

Dywedodd y Cynghorydd Chris Dolphin bod tocynnau bysiau’n boblogaidd ond yn ddrud. Pwysleisiodd pa mor bwysig oedd dibynadwyedd ac amserlenni cyfredol a dywedodd fod angen sicrhau bod gwasanaethau bysiau’n cael eu

trefnu fel bod gan ddefnyddwyr y gwasanaeth ddigon o amser i ymweld â chanol trefi a threulio o leiaf 2 awr yno, a fyddai'n cynyddu nifer y cwsmeriaid ac yn hwb i fusnesau lleol yr ardal.

Cydnabu'r Cynghorydd Thomas bod mwy o waith i'w wneud mewn perthynas ag amserlenni bysiau, a oedd yn parhau'n her o ran yr adnoddau yr oedd eu hangen i sicrhau bod newidiadau i wasanaethau ac amserlenni, ac ati, yn gyfredol.

Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch y gyllideb ar gyfer trefniadau teithio lleol, dywedodd y Cynghorydd Carolyn Thomas bod cyllideb o tua £500,000 ar gyfer cludiant cyhoeddus yn Sir y Fflint. Cyfanswm o £1 miliwn ar gyfer y sir gyfan, gan gynnwys tua £500,000 gan LlC.

Cefnogodd y Cynghorydd Andy Dunbobbin yr angen am gadw oedran y tocyn bysiau rhatach yn 60 a chyfeiriodd at iechyd a lles pobl, gan ddweud eu bod angen ymweld â meddygfeydd ac ysbytai, fel enghraifft. Ychwanegodd y gallai codi oedran y tocynnau bysiau gael effaith negyddol ar gyllidebau gofal cymdeithasol ac iechyd yn y dyfodol.

Croesawodd y Cynghorydd Dunbobbin yr awgrym y gallai Cynghorau weithredu gwasanaethau a gofynnodd a fyddai hyn yn plethu â chynlluniau cludiant cymunedol, trefniadau cludiant ysgol, ac ati.

Roedd y Cynghorydd Carolyn Thomas yn cydnabod bod angen cynnal gwasanaethau cludiant a pha mor bwysig oedd gallu cael cludiant ar gyfer anghenion iechyd a lles.

Mynegodd y Cynghorydd Ray Hughes bryder ynghylch cludiant cyhoeddus mewn ardaloedd gwledig a dywedodd fod posib' i bobl fod yn unig pe na allent ddefnyddio bysiau. Pwysleisiodd mor bwysig oedd sicrhau bod gwybodaeth amserlenni'n gyfredol a'r angen i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'i gilydd gan sôn am enghraifft lle'r oedd newid diweddar i wasanaeth wedi arwain at orfod aros am 45 munud am gysylltiad â'r gwasanaeth nesaf.

Diolchodd y Cynghorydd Kevin Hughes i'r swyddogion am eu gwaith. Ategodd farn y Cynghorydd David Evans nad oedd pawb a oedd yn gwneud cais am docyn bysiau rhatach yn ei ddefnyddio. Dywedodd y dylai tocynnau bysiau gael eu rhoi i'r rhai a oedd eu hangen ac awgrymodd y gellid cyflwyno math o brawf modd i sicrhau system sy'n fwy seiliedig ar angen.

Cyfeiriodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) at y sefyllfa bresennol ynghlwm â chynigion LlC ar drwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat eraill fel mae'r adroddiad yn eu nodi. Dywedodd fod y Pwyllgor Trwyddedu wedi trafod ymateb y Cyngor ac roedd yr ymatebion arfaethedig i'r cynigion wedi'u hatodi i'r adroddiad.

Soniodd y Cynghorydd Jane Johnson am y rheoliadau yn Sir y Fflint lle na ellid ond darparu trwyddedau cerbydau hacni i gabiau duon, ond mewn rhannau eraill o Ogledd Cymru, roedd modd cael trwydded ar gyfer ceir salŵn a bysiau mini arferol. Dywedodd fod hyn yn broblem gan fod cabiau duon yn hynod ddrud.

Eglurodd Arweinydd y Tîm Trwyddedu bod yr Awdurdod wedi'i enwebu fel awdurdod cam cyntaf ynghlwm â Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd i sicrhau bod pob cerbyd hacni'n hygyrch ac roedd y Cyngor wedi mabwysiadu cabiau

duon. Cadarnhaodd nad oedd ond 2 drwydded cerbydau hacni wedi'u cofrestru yn Sir y Fflint.

Ychwanegodd y Cynghorydd Johnson bod hyn yn dangos nad oedd y system bresennol yn gweithio, gydag ond 2 dacsi ar gael yn Sir y Fflint gyfan i bobl eu stopio ar y stryd, gan na all cerbydau hurio preifat ond derbyn archebion ymlaen llaw. Erfyniodd y Cynghorydd Johnson ar y Cyngor i ystyried hyn ymhellach.

Awgrymodd y Cynghorydd Kevin Hughes y dylid gosod camerâu mewn tacsis i warchod y gyrrwr a chwsmeriaid. Dywedodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) bod defnyddio camerâu teledu cylch caeedig a safonau ar eu cyfer mewn cerbydau, fel roedd Cwestiwn 23, tudalen 30 yn yr adroddiad yn ei nodi, yn cael ei gefnogi.

Dywedodd y Cynghorydd Chris Bithell y dylid cefnogi cyflwyno safonau cenedlaethol a'u bod o fantais o ran gwarchod y cyhoedd. Dywedodd ei fod yn erbyn canoli a soniodd am bwysigrwydd gwybodaeth leol a rhannu gwybodaeth hanfodol o ran materion gwarchod y cyhoedd.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi Ymgynghoriad LIC; a

(b) Cynnwys sylwadau'r Pwyllgor ynghylch tocynnau bysiau rhatach yn ymateb y Cyngor.

## 52. LLWYBRAU PERYGLUS CYNGOR SIR Y FFLINT

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) adroddiad ar y meini prawf i ddiffinio llwybr peryglus ysgol a diffinio llwybrau peryglus i'r ysgol o fewn y sir. Darparodd wybodaeth gefndir a gwahoddodd y Rheolwr Cludiant i gyflwyno'r adroddiad.

Trafododd y Rheolwr Cludiant y prif ystyriaethau, fel maent wedi'u nodi yn yr adroddiad, a dywedodd fod dyletswydd gyfreithiol ar y Cyngor i asesu anghenion teithio dysgwyr a oedd yn cerdded i ac o'r ysgol. Roedd Polisi Cludiant y Cyngor, a oedd ynghlwm â'r adroddiad, yn dweud y byddai cludiant i'r ysgol yn cael ei ddarparu am ddim i'r safle addysg cymwys, agosaf dan yr amgylchiadau canlynol:

- bod y plentyn yn byw mwy na 2 filltir (i ddisgyblion cynradd) a 3 milltir (i ddisgyblion uwchradd) o'r ysgol briodol agosaf atynt; neu
- bod y llwybr yn cael ei ystyried yn 'beryglus'

Eglurodd y Rheolwr Cludiant, yn unol â Darpariaeth Statudol Teithio gan Ddysgwyr, na ellir ond diffinio llwybr fel un 'derbyniol' (h.y. nad yw'n beryglus) os oedd y meini prawf fel maent wedi'u nodi yn adran 1.02 yn yr adroddiad yn cael eu bodloni.

Pwysleisiodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) na fyddai'r polisi llwybrau peryglus ond yn berthnasol i'r ysgol agosaf. Eglurodd na fyddai cludiant yn cael ei gynnig am ddim os nad oedd i'r ysgol agosaf.

Gofynnodd y Cynghorydd Haydn Batman a oedd cyflwr y ffordd yn cael ei ystyried. Cadarnhaodd y Rheolwr Cludiant y byddai asesiad yn ystyried cyflwr llwybrau cerdded ac wyneb ffyrdd.

Mynegodd y Cynghorydd Dave Hughes ei siomedigaeth nad oedd y llwybr o Lanfynydd i Abermorddu wedi'i restru.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Andy Dunbobbin at ffordd yn Llaneurgain ac awgrymwyd y dylid codi materion penodol ynghylch llwybrau gyda swyddogion y tu allan i'r cyfarfod.

Roedd y Pwyllgor yn teimlo y byddai'n fwy priodol oedi cyn hysbysebu'r llwybrau ar wefan y Cyngor nes bod y llwybrau roedd aelodau'n pryderu yn eu cylch wedi'u hadolygu.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Marion Bateman at y rhestr o lwybrau peryglus a gofynnodd a oedd cynlluniau i wella rhywfaint ohonynt ac, felly, eu tynnu oddi ar y rhestr yn y dyfodol. Eglurodd y Rheolwr Cludiant bod y llwybrau'n cael eu hadolygu'n gyson a bod cyfle bob blwyddyn i wneud cais am gyllid ar gyfer cynlluniau a allai arwain at wneud gwaith gwella a thynnu rhai llwybrau oddi ar y rhestr fel rhai peryglus.

Gofynnodd y Cynghorydd Bateman a ellid darparu'r sgôr i lwybrau peryglus. Gofynnodd hefyd a ellid darparu gwybodaeth i ysgolion o ran eu sefyllfa nhw mewn perthynas â llwybrau peryglus. Dywedodd y Rheolwr Cludiant bod matrics ar gael a gellid ei anfon at aelodau'r Pwyllgor.

Pwysleisiodd y Cynghorydd Chris Bithell nad oedd y polisi ond yn berthnasol i'r ysgol agosaf ac roedd angen gweithredu'r rheolau'n llym i osgoi costau ychwanegol. Dywedodd fod rhai achosion lle nad oedd rhieni am i'r llwybr gael ei wneud yn ddiogel gan y byddai hyn yn golygu na fyddai cludiant i'r ysgol ar gael am ddim.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi dyletswydd statudol y Cyngor i asesu anghenion teithio disgyblion ysgol dan Ganllawiau Teithio gan Ddysgwyr a'r broses a ddefnyddir i ddiffinio Llwybrau Peryglus i'r Ysgol; a

(b) Nodi'r rhestr gyfredol o Lwybrau Peryglus i'r Ysgol.

## 53. ADRODDIAD MONITRO CHWARTER 3 CYNLLUN Y CYNGOR AR GYFER 2018/19

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) adroddiad i roi crynodeb o berfformiad Chwarter 3 (mis Hydref tan fis Rhagfyr 2018) ar gyfer blaenoriaeth 'Cyngor Gwyrdd' Cynllun y Cyngor a oedd yn berthnasol i'r Pwyllgor yn 2018/19.

Dywedodd y Prif Swyddog bod adroddiad monitro Chwarter 3 yn adroddiad cadarnhaol a'i fod yn dangos bod 92% o'r gweithgareddau yn gwneud cynnydd da a bod 85% yn debygol o gyflawni'r canlyniadau a ddymunid. Roedd 67% o ddangosyddion perfformiad wedi cyrraedd neu ragori ar eu targedau. Roedd y risgiau'n cael eu rheoli gyda'r mwyafrif yn cael eu hasesu'n risgiau cymedrol (61%) neu'n fân risgiau/risgiau ansylweddol (22%). Roedd yr adroddiad yn adroddiad am eithriadau ac felly'n canolbwyntio ar y meysydd a oedd yn tanberfformio.

Cyfeiriodd y Prif Swyddog at y risg fawr a nodwyd ar gyfer y Pwyllgor sef 'na fydd cyllid yn cael ei sicrhau ar gyfer cynlluniau lliniaru llifogydd sy'n flaenoriaeth'. Dywedodd fod gan y Cyngor ddyletswydd statudol newydd, o 7 Ionawr 2019 ymlaen, fel Corff Cymeradwy Draenio Cynaliadwy. Eglurodd fod hyn wedi rhoi pwysau sylweddol o ran adnoddau ar y Tîm Rheoli Perygl Llifogydd ac Arfordiroedd i weithredu a darparu adnoddau a chyllid ar gyfer y rôl statudol newydd hon. Dywedodd y byddai effeithiau datblygu'r gwasanaeth newydd hwn, yn y tymor byr, yn lleihau gallu'r Tîm i gyflawni cynlluniau lliniaru llifogydd anstatudol.

Gan gyfeirio at reoliadau Cyrff Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy a gyflwynwyd ar 7 Ionawr, dywedodd y Cynghorydd Chris Bithell bod Sir y Fflint wedi gofyn i LlC oedi cyn eu gweithredu gan fod angen paratoi, ond ni fu oediad a derbyniwyd swm o £20,000 i ymdrin â'r broses weithredu.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Paul Shotton at dudalen 68 yr adroddiad a'r sylw bod dyraniadau gwastraff a llifogydd ar gyfer 2018/19 i gael eu tynnu o'r Grant Refeniw Sengl a gofynnodd am ddiweddariad. Ychwanegodd fod angen neilltuo mwy o safleoedd ar gyfer cynlluniau ynni adnewyddadwy ar draws Sir y Fflint. Cyfeiriodd at y cynllun ynni dŵr yng Ngwepra a gofynnodd a oedd potensial am unrhyw gynlluniau eraill yn Sir y Fflint.

Dywedodd y Prif Swyddog bod grant natur a fyddai'n galluogi SEG wedi'i gyflwyno ac roedd disgwyl ymateb erbyn diwedd Mawrth. Ynglŷn ag ynni adnewyddadwy, dywedodd fod y Cyngor wastad yn ystyried opsiynau a'i fod yn chwilio am safleoedd posib' ar gyfer ffermydd solar yn y Sir.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi Adroddiad Monitro Chwarter 3 Cynllun y Cyngor 2018/19.

## 54. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol i'w hystyried. Dywedodd y byddai cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 9 Ebrill 2019.

Cytunwyd y byddai eitem ynghylch gostegu traffig yn cael ei chynnwys ar y Rhaglen i'w hystyried yn un o gyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol yn cael ei newid; a

(b) Bod yr Hwylusydd, wrth ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor, yn cael ei awdurdodi i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen.

## 55. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD

Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd na'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 am a daeth i ben am 11.50 am)

..................................................

**Cadeirydd**